



**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Bro Morgannwg**  
**17 Hydref 2022**

**Cofnodion**

<b>Yn bresennol:</b>		
<b>Enw</b>	<b>Teitl</b>	<b>Sefydliad</b>
Y Cynghorydd Lis Burnett (LB)	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Huw Jakeway (HJ)	Prif Swyddog Tân	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Mike Evans (ME)	Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De	Cyfoeth Naturiol Cymru
Abigail Harris (AH)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio	Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro
Suzanne Rankin (SR)	Prif Weithredwr	BIP Caerdydd a'r Fro
Rob Thomas (RT)	Prif Weithredwr	Cyngor Bro Morgannwg
Judith Cole (JC)	Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau'r Gweithlu	Llywodraeth Cymru
Y Cynghorydd Shirley Hodges (SH)	Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Enwebedig	Cyngor Tref y Barri
Fiona Kinghorn (FK)	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro
Rachel Connor (RC)	Cyfarwyddwr Gweithredol	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
Mark Brace (MB)	Comisiynydd Cynorthwyol	Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru
Estelle Hitchon (EH)	Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu	Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Fiona Hourahine (FH)	Rheolwr Gweithrediadau Canol De Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
<b>Hefyd yn bresennol:</b>		
Tom Bowring (TB)	Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol	Cyngor Bro Morgannwg
Helen Moses (HM)	Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Andreas Pieris-Plumley (APP)	Intern Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
<b>Ymddiheuriadau:</b>		
Emil Evans (EE - CCF)	Dirprwy Bennaeth	Coleg Caerdydd a'r Fro
Eirian Evans (EE - GCC)	Pennaeth De Cymru Un	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Marie Davies (BIP)	Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio	BIP Caerdydd a'r Fro
Lucy Jones (LJ)	Swyddog Prawf	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Charles Janczewski (CJ)	Cadeirydd y BIP	BIP Caerdydd a'r Fro

Eitemau'r Agenda	Camau Gweithredu
<p><b>1. Croeso a Chyflwyniadau</b></p> <p>Croesawodd LB bawb ac esboniodd bwrpas y cyfarfod, sef adolygu'r Cynllun Lles drafft newydd a'i gymeradwyo ar gyfer ymgynghori.</p>	
<p><b>2. Ymddiheuriadau</b></p> <p>Gweler uchod.</p>	
<p><b>3. Cynllun Lles</b></p> <p>Dechreuodd TB drwy roi cyflwyniad byr o'r Cynllun Lles a'i gam presennol sef y cam ymgynghori (yn amodol ar gymeradwyaeth y BGC). Esboniodd TB y bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal am 12 wythnos rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr, fydd hefyd yn rhoi amser i fyfrio'n fewnol ar y cynllun. Yna trosglwyddodd TB i HM.</p> <p>Esboniodd HM fod tri amcan Lles wedi'u cytuno ar ôl ymgysylltu'n helaeth â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Cynhaliwyd ymgysylltu trwy ddigwyddiadau fel Gweithdy'r Dyfodol a ddefnyddiodd y model 3 gorwel.</p> <p>Dywedodd HM fod gwaith wedi'i wneud gyda BGC a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Caerdydd i edrych ar alinio rhwng y gwahanol gynlluniau.</p> <p>Esboniodd HM y cysylltwyd â swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ynglŷn â'r cynllun ac mae copi o'r adborth wedi ei rannu ar gyfer y cyfarfod hwn. Mae trafodaethau wedi bod yn adeiladol gyda chefnogaeth ar gyfer y dull a ddefnyddiwyd.</p> <p>Dywedodd HM fod y cynllun wedi'i ddrafftio a'i fod yn barod i symud ymlaen i gam 9 (cam ymgynghori) yn dilyn cymeradwyaeth y BGC yn y cyfarfod heddiw.</p> <p>Yna, rhoddodd HM drosolwg o'r cynllun gan esbonio sut mae'r weledigaeth wedi aros yn ei ffurf fanwl ond gyda datganiad byrrach newydd i grynhoi. Datblygwyd hyn yn rhannol yn dilyn gweithdai rhanddeiliaid. Mae naw adran i'r cynllun, gyda thri Amcan Lles newydd, tair ffrwd waith blaenoriaeth, 19 cam i gyflawni'r Amcanion a dull integredig cyffredinol rhwng yr holl amcanion a nodau yn y cynllun. Esboniodd HM yr amcanion Lles a sut maen nhw'n cyfrannu at nodau Lles cenedlaethol, a siarodd drwy'r adrannau eraill.</p> <p>Daeth HM i ben drwy esbonio'r amserlen wrth symud ymlaen sy'n cynnwys y cyfnod ymgynghori o 12 wythnos yn dilyn cymeradwyaeth y BGC.</p> <p>Gwahoddodd TB yr aelodau i roi sylwadau ar y cynllun drafft.</p>	

Canmolodd FK y cynllun ond awgrymodd newid 'cyfartal' i 'cyfiawn' yn yr amcanion fel ei fod yn gliriach ac yn rhoi'r neges gywir ein bod yn anelu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Cefnogodd AH hyn.

Nododd LB y dylem geisio defnyddio Saesneg plaen pryd bynnag y bo modd fel y gall unrhyw un sy'n darllen y cynllun ei ddeall.

Canmolodd ME y cynllun hefyd ac yn arbennig y ffocws ar Fro fwy gwydn a gwyrddach yn ogystal â'r defnydd o'r dull 3 gorwel. Atgoffodd ME y partneriaid fod yn rhaid i ni hefyd ymrwymo i weithredu ac nid i eiriau yn unig. Adleisiodd HJ hyn.

Awgrymodd SH fod angen ysgogi Cynghorau Tref a Chymuned ynglŷn â sut y gallant gyfrannu at gyflawni amcanion y cynllun hwn.

Awgrymodd AH ac SR roi mesurau ar waith i olrhain cynnydd ein hamcanion a sicrhau ein bod yn eu cyflawni.

Gofynnodd SR hefyd sut rydym yn blaenoriaethu'r cynllun hwn mewn perthynas â'r gwaith a'r blaenoriaethau presennol sydd gan y partneriaid, oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau.

Adleisiodd TB bryderon SR gan awgrymu bod angen trafod maint yr hyn yr ydym am ei gyflawni yn ystod yr ymgynghoriad.

Gofynnodd RT sut rydym yn cadw golwg ar ba mor briodol a pherthnasol yw nodau'r cynllun wrth i faterion a blaenoriaethau newydd ddod i'r amlwg yn gyson gydag amser. Felly, mae RT yn dweud bod angen i ni allu addasu i newid wrth symud ymlaen.

Gofynnodd LB i'r partneriaid a ydynt yn cytuno â newid 'cyfartal' i 'cyfiawn', cynnwys gosod targedau fel rhan o'r ymgynghoriad a'i wneud yn berthnasol i'r grwpiau rydym yn siarad â nhw. - Cytunodd pawb.

Gofynnodd LB i'r partneriaid a yw'r BGC yn cymeradwyo symud y cynllun ymlaen i'r cam ymgynghori - Cytunodd pawb. Daeth LB â'r cyfarfod i ben.